# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 21 Mawrth 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, A.P. Cooper, D.B. Davies, I.W. Davies, T. Davies, W.T. Evans, J.K. Howell, I.J. Jackson, A.W. Jones, H.I. Jones, W.J. Lemon, M.J.A. Lewis, M.K. Thomas and J.S. Williams

**Cynghorydd P.M.Hughes – yn lle'r Cynghorydd J.A.Davies**

**Hefyd yn bresennol:**

Cynghorydd M. Gravell a fu'n annerch y Pwyllgor or an Cais Cynllunio S/35086
Cynghorydd A.G.Morgan a fu'n annerch y Pwyllgor o ran Cais Cynllunio S/34900

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion:**

Y Cynghorydd L.D. Evans o ran Cais Cynllunio E/34720

Y Cynghorydd D.M. Jenkins o ran Cais Cynllunio E/34720

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards - Y Pennaeth Cynllunio Integredig
S. Murphy - Uwch-gyfreithiwr
K. James - Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio)
G. Noakes - Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
J. Thomas - Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
S.W. Thomas - Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Gorllewin)
M. Hughes - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 2.00 - 5.10 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J.A. Davies a K. Madge.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. YSTYRIED ADRODDIADAU'R PENNAETH CYNLLUNIO YNGHYLCH Y CEISIADAU CYNLLUNIO CANLYNOL (BYDD Y PWYLLGOR WEDI YMWELD Â'R SAFLEOEDD YN FLAENOROL) A PHENDERFYNU AR Y CEISIADAU

### 3.1. E/33595 - ADDASU TANC STORIO DWR A SIED BLANHIGION YN DY GWYLIAU AR DIR YM MRYNGOIALLT, FELINGWM, CAERFYRDDIN, SA32 7PX

Cyfeiriodd y Swyddog Rheoli Datblygu (Dwyrain) at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 3 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 9 Mawrth 2017) a gynhaliwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar safle'r datblygiad mewn perthynas â'i agosrwydd at eiddo cyfagos. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau cyflwyniad, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.

Roedd sylwadau wedi dod i law yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Roedd maint y llain yn rhy fach i'r datblygiad arfaethedig.
- Roedd offer/seilwaith Dŵr Cymru yn parhau i groesi'r safle.
- Byddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar breifatrwydd/amwynder deiliaid Bryngoiallt.
- Byddai'r datblygiad yn tarfu ar ddeiliaid Bryngoiallt o ran llygredd sŵn, yn enwedig wrth i ymwelwyr fynd a dod a defnyddio generadur trydan.
- Parcio annigonol ar y safle.
- Byddai'r datblygiad yn effeithio ar ddiogelwch ac iechyd deiliaid Bryngoiallt.

Cafwyd sylwadau yn ogystal yn cefnogi'r datblygiad arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Roedd y cais ar gyfer y safle tir llwyd yn unigryw ac yn anarferol ac roedd ailddatblygu safleoedd o'r fath yn cael ei annog gan bolisïau cenedlaethol a lleol.
- Roedd addasu'r strwythur presennol at ddibenion busnes.
- Roedd y cymydog sy'n gwrthwynebu'r datblygiad wedi prynu ei eiddo gan wybod mai safle diwydiannol oedd hwn.
- Roedd Dŵr Cymru yn hapus â'r cynigion o ran y parcio a'r cynlluniau ar gyfer y safle.
- Roedd y generadur trydan yn fodern ac ychydig iawn o sŵn byddai'n cael ei gynhyrchu.
- Nid oedd mynediad i'r safle yn broblem fel y gwelwyd wrth i fws y Pwyllgor ddilyn y lôn yn arwain at y safle ar gyfer yr ymweliad.
- Byddai'r datblygiad o fudd i'r ardal gyfan, gan ddenu twristiaid i'r ardal.
- Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, roedd cwrtil preswylfa gerllaw wedi cael ei estyn yn is na safle'r cais er nad oedd wedi bod yn rhan o'r ardd yn wreiddiol.

**PENDERFYNWYD:**

3.1.1 Bod y cais cynllunio canlynol yn cael ei wrthod, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, ar sail y ffaith na fyddai'n cydymffurfio â pholisïau cynllunio perthnasol Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin, sef Polisïau TSM4 a H5.

3.1.2 Bod y Pennaeth Cynllunio yn cyflwyno adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol gan nodi gwrthwynebiad y Pwyllgor ac awgrymu rhesymau cynllunio dros wrthod y cais ar sail yr uchod.

**3.2. E/34720 - 8 O DAI PÂR O FEWN SAFLE SYDD EISOES YN BODOLI AR DIR YM MAESPIODE, LLANDYBIE, RHYDAMAN, SA18 3YS**

Cyfeiriodd y Swyddog Rheoli Datblygu (Dwyrain) at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 3 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 9 Mawrth 2017) a gynhaliwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar safle'r datblygiad mewn perthynas â'r man gwyrdd a chyn Gartref Gofal Glanmarlais, sydd ar fin ailagor. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau cyflwyniad, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.

Roedd sylwadau wedi dod i law yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Effaith y datblygiad ar y ffordd fynediad i safle Maespiode a oedd yn gul iawn ac roedd y sefyllfa yn waeth oherwydd bod ceir yn parcio ar ochr y ffordd, yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau. Byddai'r datblygiad yn gweld cynnydd mewn traffig ym Maespiode, a fyddai'n gwaethygu gydag ailddatblygiad arfaethedig Cartref Gofal Glanmarlais.
- Cael gwared â'r palmant oherwydd y datblygiad.
- Roedd y man gwyrdd yn arfer bod yn ardal hamdden o dan yr hen Gynllun Datblygu Unedol, ond cafodd ei ddileu o'r Cynllun Datblygu Lleol presennol heb ymgynghori â'r aelodau lleol.
- Roedd y man gwyrdd yn rhan annatod o'r gymuned leol a bu'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar gyfer ffeiriau a gan drigolion cyn Gartref Gofal Glanmarlais (a oedd ar fin cael ei ailagor gyda phwyslais penodol ar ofal dementia).
- Byddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar drigolion Maespiode a gallai beryglu ailddatblygiad Glanmarlais.
- Roedd anghysondebau yn yr adroddiad o ran y polisïau sy'n berthnasol i'r cais hwn.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio.

**3.3. S/34900 - GWAREDU'R TO FFLAT PRESENNOL A CHODI TO AR OLEDDF YN EI LE; NEWID AC ADNEWYDDU'R LLAWR GWAELOD O 3 I 2 YSTAFELL WELY. LLAWR CYNTAF NEWYDD I GYNNWYS 2 YSTAFELL WELY, SWÎT YMOLCHI, YSTAFELL YMOLCHI A STYDI YN NEW LODGE, Y LLAN, FELINFOEL, LLANELLI, SA14 8DY**

Cyfeiriodd y Swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 4.2 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 9 Mawrth 2017) a oedd wedi ei gynnal er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar safle'r cais o ran yr eiddo cyfagos. Cyfeiriodd, gyda chymorth

sleidiau cyflwyniad, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.

Roedd sylwadau wedi dod i law yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Siom nad oedd y Pwyllgor wedi gweld y safle o'r eiddo cyfagos.
- Roedd uchder crib to'r datblygiad arfaethedig yn uwch na'r tai cyfagos.
- Byddai'r eiddo cyfagos hefyd yn colli eu preifatrwydd.
- Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig i uchder y ffenestri yn y datblygiad yn atal colli preifatrwydd yr eiddo cyfagos.

**PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad /atodiad y Pennaeth Cynllunio.

## 4. PENNU'R CEISIADAU CYNLLUNIO A NODIR YN YR ADRODDIADAU CANLYNOL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO:

### 4.1. RHANBARTH Y DE

**4.1.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio.

| | |
|---|---|
| **S/35049** | **Cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer estyniad i'r llawr gwaelod yng nghefn yr eiddo, The Fold, Heol Capel Seion, Pontyberem, Llanelli, SA15 5AT**<br><br>Gwnaed sylwadau o ran y cais a oedd yn ail-bwysleisio'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y swyddog. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cais ac er y cydnabuwyd mai cais ôl-weithredol oedd hwn, y farn oedd bod yr estyniad yn briodol o ran graddfa a chynllun. |

**4.1.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle.

| | |
|---|---|
| **S/35086** | **Cynllun amgen ar gyfer un breswylfa (ail-gyflwyno cais S/34809 – gwrthodwyd ar 06/01/2017) ar lain ger 15 Heol Ddu, Pen-y-Mynydd, Trimsaran, SA15 4RN.**<br><br>Cafwyd sylwadau o ran y datblygiad arfaethedig a oedd yn cyfeirio at faterion a fynegwyd gan wrthwynebwyr trydydd parti, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Roedd yr estyniad i'r ardd yn mynd y tu hwnt i ffiniau diffiniedig y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>• Roedd uchder y datblygiad yn oramlwg.<br><br>• Cyfran y tŷ mewn perthynas â'r llain.<br><br>Yn sgil y pryderon a fynegwyd gan drydydd parti, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried ymweld â'r safle.<br><br>Yn dilyn y sylwadau uchod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r Pwyllgor ymweld â'r safle. |

**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i weld safle'r cais yn sgil pryderon gan drydydd parti o ran ffiniau diffiniedig y Cynllun Datblygu Lleol a chyfran y datblygiad mewn perthynas â'r llain.

## 4.2. RHANBARTH Y GORLLEWIN

**4.2.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ganiatáu'r ceisiadau canlynol.

| | |
|---|---|
| **W/34226** | **1. Newid defnydd ac addasu adeiladau diangen wrth ochr Palas yr Esgob 2. Atgyweiriadau allanol i'r porthdy 3. Adnewyddu'r ardd furiog 4. Ailadeiladu ffoledd yr ardd 5. Adeiladu cysgodfan yn y coetir 6. Adnewyddu gardd furiog a gardd bleser 7. Gwelliannau i'r maes parcio 8. Creu llwybr troed o amgylch Dôl yr Esgob yn Amgueddfa Caerfyrddin, Heol Fawr, Abergwili, Caerfyrddin, SA31 2JG** |
| **W/34227** | **2. Newid defnydd ac addasu adeiladau diangen wrth ochr Palas yr Esgob 2. Atgyweiriadau allanol i'r porthdy 3. Adnewyddu'r ardd furiog 4. Ailadeiladu ffoledd yr ardd 5. Adeiladu cysgodfan yn y coetir 6. Adnewyddu gardd furiog a gardd bleser 7. Gwelliannau i'r maes parcio 8. Creu llwybr troed o amgylch Dôl yr Esgob yn Amgueddfa Caerfyrddin, Heol Fawr, Abergwili, Caerfyrddin, SA31 2JG** |

**4.2.2 PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r ceisiadau canlynol.

| | |
|---|---|
| **W/34854** | **Preswylfa pedair ystafell wely newydd ar lain yn Trevaughan Lodge, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0QP**<br><br>Cafwyd sylwadau o ran y cais a chyfeiriwyd at effaith llifogydd ar y safle dan sylw, yn enwedig yn dilyn cyfnodau o law trwm. Fodd bynnag, ni chafwyd gwrthwynebiad i'r cais. |

**4.2.3 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio.

| | |
|---|---|
| **W/35177** | **Amrywio amod 2 caniatâd cynllunio W/32611 (cymeradwywyd 10/11/2015) i ganiatáu glas mwy tywyll ar gyfer cladin allanol yn 3 Wayside, Ferry Point, Heol Ferry Point, Llansteffan, Caerfyrddin, SA33 5EX**<br><br>Cafwyd sylwadau yn cefnogi'r cais a mynegwyd bodlonrwydd o ran y broses a ddilynwyd gan y swyddogion wrth ymdrin â'r cais. |

*Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers 3 awr. Felly,* ***PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL*** *fod y Rheolau Sefydlog yn cael eu rhoi o'r neilltu dros dro er mwyn gallu ystyried yr eitemau oedd yn weddill ar yr agenda.*

**4.2.4 PENDERFYNWYD:**

4.2.4.1 Bod y cais cynllunio canlynol yn cael ei ganiatáu, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, ar sail y byddai'n (i) darparu cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal, (ii) hyrwyddo defnydd effeithiol y tir, (iii) creu amgylchedd diogel, deniadol a hygyrch a fyddai'n cyfrannu at iechyd a llesiant pobl a (iv) gwella llesiant cymdeithasol ac economaidd.

4.2.4.2. Bod y Pennaeth Cynllunio yn cyflwyno adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol gan awgrymu rhesymau cynllunio dros ganiatáu'r cais ar sail yr uchod, a hynny er mwyn i'r Pwyllgor eu cadarnhau.

| | |
|---|---|
| **W/35171** | **Adeiladu caban pren ger yr adeiladau presennol Mae angen llety ychwanegol er mwyn i'r busnes gwyliau presennol ddarparu lleoedd ychwanegol. Bydd y llety yn hygyrch i bobl mewn cadeiriau olwyn a'r rhai llai abl er mwyn cefnogi ein model busnes i ddarparu llety hygyrch o ansawdd uchel sy'n brin yn yr ardal hon, Creigiau Bach, Llangain, Caerfyrddin SA33 5AY**<br><br>Cafwyd sylwadau yn ogystal yn cefnogi'r datblygiad arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Cymorth i greu cyflogaeth ar gyfer mab yr ymgeisydd a dylid ystyried hyn yn gyfle.<br><br>• Anghysondebau o ran ceisiadau a gymeradwywyd yn flaenorol.<br><br>• Rheidrwydd i ddarparu'r mathau hyn o gyfleusterau er mwyn darparu llety addas ar gyfer ymwelwyr anabl yn Sir Gaerfyrddin.<br><br>• Gellid ystyried bod gwrthod y cais yn gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr cadeiriau olwyn. |

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**